

Pam yr enw “pechaduriaid”

“...ac os wyt yn bur ac uniawn, yna fe wylia ef drosot, a’th adfer i’th safle o gyflawnder.” (adn. 6)

Beth am ddarllen Job 8:1–22 ac yna myfyrio

Ddoe, fe gyfeiriwyd at seiciatrydd oedd yn nodi fod cymaint o broblemau meddyliol ac emosiynol pobl yn deillio o bechod. Nid fod pob problem yn ganlyniad pechod personol; petaem yn mynnu honni hynny, fe fyddem yn disgyn i’r un calon-galedwch â Bildad, un o gynghorwyr Job, oedd yn mynnu awgrymu fod marwolaeth plant Job yn ganlyniad naill ai i bechod Job neu i’w pechod eu hunain, er ein bod ni yn y bennod gyntaf yn darllen fod yr anawsterau a ddaeth i’w ran wedi dod oherwydd bod Duw wedi caniatáu i’r diafol dynnu i lawr yr amddiffynfa oedd yn gwarchod drosto ef a’i deulu (Job 1:8–12). A oedd Bildad yn gynghorwr ansensitif? Mae’r Ysgrythur yn awgrymu hynny.

Mae rhai pobl sydd yn dioddef oherwydd ffactorau nad oes a wnelo nhw ddim â’u sefyllfa eu hunain ac nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn deillio o’u gweithredoedd eu hunain. Ond mae angen i ni gofio, oherwydd nad yw problem yn ganlyniad uniongyrchol pechod, fod hyn yn awgrymu nad oes pechod ym mywyd yr unigolyn. Hyd yn oed yng nghalon y rhai sydd wedi dioddef dan law pobl sydd am eu cam-drin, mae’r cwestiwn o wrthryfel yn erbyn Duw yn parhau, a’r gwrthryfel yma sy’n ein gwneud ni yn bechaduriaid.

Beth am ystyried am eiliad beth mae’r Beibl yn ei olygu pan mae’n galw dynion a merched yn bechaduriaid? Nid yw’r gair ‘pechadur’ yn golygu fod person yn gynhenid annerbyniol. Y rheswm dros yr enw yw bod eu perthynas â Duw wedi ei thorri, a bod dyn yn mynnu cynnal agwedd gwrthryfelgar tuag ato. Mae’r Beibl yn gwneud y pwynt fod pobl, nid yn unig yn bechaduriaid oherwydd eu bod yn pechu, ond eu bod yn pechu oherwydd eu bod yn bechaduriaid. Mae pechod yn ddwfn o fewn i natur pob un ohonom. Y peth gwaethaf am bechod yw nid yn unig ei fod yn torri cyfraith Duw, ond ei fod yn torri calon Duw hefyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Preg. 7:20; Eiseia 64:6–7; Rhuf. 3:21–26

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod pawb yn cael eu diffinio fel pechadur?
2. Pam fod ein gweithredoedd gorau ond fel bratiau budron?

Gweddi

O Dad, rwy’n diolch i ti am y gras i ymateb i dy ras di yn fy mywyd. Fe ddaethost ataf er mwyn i mi gael dod atat ti. Rwyf am ddiolch i ti trwy dragwyddoldeb am hyn. Amen.